

## Y CYNGOR - CYFARFOD ARBENNIG

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 16.00 ar 12 IONAWR 2021, dros Zoom.**

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (yn y Gadair); y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor; Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr); Mr George Ashworth; Ms Samantha Blackie (o gofnod 34); Ms Kate Eden; Ms Meri Huws; Mr Morgan Lewis, Llywydd UMCA; Dr Louise Marshall; Mr Nathaniel Pidcock, Llywydd UMAber; Ms Rhuanedd Richards; Ms Fiona Sharp; Dr William Williams; Yr Athro Syr Robin Williams; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Ms Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Mr Nicholas Rogers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol; a Mr Steve Thomas, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Ms Kath Williams.

### 32. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

#### 1. Cyfarfod Arbennig

Diolchwyd i'r aelodau am ddod i'r Cyfarfod Arbennig hwn o'r Cyngor, a oedd wedi ei gynnwll heb fawr o rybudd i drafod y datblygiadau diweddaraf ynglŷn â sefyllfa myfyrwyr yn dod yn ôl i gampws y Brifysgol wedi gwyliau'r Nadolig.

#### 2. Cydymdeimlad

Mynegodd yr aelodau eu cydymdeimlad â Kath Williams a'r teulu yn dilyn eu profedigaeth ddiweddar, a gofynnwyd i Ysgrifennydd y Brifysgol anfon llythyr i gyfleu'n ffurfiol gydymdeimlad y Cyngor (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

### 33. GWRTHDARO BUDDIANNAU

NODWYD

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

### 34. DATBLYGIADAU DIWEDDAR YNGLŷN Â MYFYRWYR YN DYCHWELYD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (COU2021-084).

NODWYD

1. Roedd y Brifysgol wedi bod yn paratoi i gael y myfyrwyr nôl i'r campws yn raddol o 11 Ionawr 2021 ymlaen, yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Ond, cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig yn hwyr ddydd Gwener, 08 Ionawr 2021 gan

Lywodraeth Cymru yn dweud y dylai myfyrwyr aros gartref ar hyn o bryd. Felly cysylltodd y Brifysgol â'r myfyrwyr ar unwaith i roi'r canllawiau newydd iddynt a dweud y dylent aros adref heblaw am amgylchiadau penodol.

2. Byddai'r addysgu am y semester newydd yn dal i ddechrau ar 25 Ionawr 2021, ond byddai'r holl addysgu'n digwydd ar-lein tan 05 Chwefror. Byddai hyn yn cael ei adolygu ymhellach gan Weithrediaeth y Brifysgol ar yr un pryd ag y bydd Llywodraeth Cymru'n gwneud yr adolygiad nesaf o gyfyngiadau cenedlaethol Cymru ddiwedd mis Ionawr.
3. Yn rhan o'r paratodau gwreiddiol ar gyfer derbyn myfyrwyr nôl i'r campws yn ddiogel o 11 Ionawr 2021, roedd y Brifysgol wedi adolygu asesiadau risg y sefydliad yng ngoleuni straeniau newydd Covid-19. Barnwyd mai dim ond mân addasiadau oedd eu hangen, ac yn gyffredinol bod y trefniadau presennol yn dal i fod yn briodol. Roedd y Brifysgol felly yn hyderus y gallai aildechrau addysgu wyneb-yn-wyneb pan fydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau diwygiedig.
4. I ymateb i'r sefyllfa, roedd Gweithrediaeth y Brifysgol yn cynnig y dylid ad-dalu 100% o ffioedd llety'r Brifysgol i'r myfyrwyr am yr wythnosau nad oeddent yn gallu dod nôl i Aberystwyth oherwydd canllawiau Llywodraeth Cymru.
5. Tybiwyd bod tua 800 o fyfyrwyr eisoes wedi dod nôl i'w llety Prifysgol, ac roedd camau'n cael eu cymryd i gael syniad cliriach o'r niferoedd eisoes nôl ar y campws. Disgwylir rhagor o fyfyrwyr dros y dyddiau nesaf - yn bennaf y rhai nad oedd ganddynt ddewis ond dod nôl i lety'r Brifysgol oherwydd eu sefyllfaoedd personol.
6. Er y byddai'n rhaid i fyfyrwyr sydd wedi dod nôl neu a fyddai'n gwneud hynny'n fuan dalu ffioedd llety'r brifysgol yn llawn, byddai'r rhai sy'n wynebu caledi ariannol yn cael eu hannog i holi am gymorth trwy gyfrwng y gronfa caledi myfyrwyr. Sicrhawyd yr aelodau bod rhai gwasanaethau hanfodol - yn cynnwys arlwyio prydau bwyd i'w cymryd allan, manau astudio, a'r llyfrgell - ar agor ar gyfer y rhai a oedd wedi dod nôl.
7. Dywedwyd wrth yr aelodau bod ad-daliad rhent i fyfyrwyr mewn llety preifat yn fater i fyfyrwyr ei godi gyda'u landlordiaid. Roedd Undeb y Myfyrwyr yn gweithio i annog landlordiaid preifat i ad-dalu rhenti'r myfyrwyr am y cyfnod nad oeddent yn gallu bod nôl yn Aberystwyth. Ac unwaith eto, byddai myfyrwyr mewn llety preifat sy'n wynebu caledi ariannol yn cael eu hannog i holi am gymorth y gronfa caledi myfyrwyr.
8. Cafodd goblygiadau ariannol bras ad-dalu'r ffioedd llety eu cyflwyno ym mhapur y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol. Gan fod hon yn sefyllfa sy'n newid yn sydyn, ni chafodd yr oblygiadau ariannol eu modelu'n llawn hyd yn hyn. Ond nid oedd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn disgwyl effaith sylweddol ar lif arian y sefydliad, nac ar yr alldro cyllidebol a ragwelwyd am y flwyddyn. Nid oedd modd torri'r cyfmod pendant y cytunwyd arno gyda benthyciwr y Brifysgol.
9. Atgoffwyd yr aelodau bod y Brifysgol yn parhau i ddarparu addysg a chanlyniadau fel yr addawyd i'r myfyrwyr yn wreiddiol. Dim ond yng nghyswllt ffioedd llety'r Brifysgol yr oedd yr ad-daliad arfaethedig, ac nid ffioedd dysgu.
10. Yn anffodus, cafodd rhandaliadau am ffioedd llety'r Brifysgol am y tymor hwn eu cymryd ddydd Iau, 07 Ionawr 2021 - y diwrnod cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei chanllawiau diwygiedig. Byddai dull addas yn cael ei ddatblygu felly i fyfyrwyr nad oeddent wedi dod nôl i'r Brifysgol ei ddefnyddio i wneud cais am ad-daliad mewn cyfrannau addas.

## **PENDERFYNWYD**

11. Y gall myfyriwr yn llety'r Brifysgol wneud cais am 100 y cant o ad-daliad am bob wythnos na allant ddefnyddio'r llety os yw Llywodraeth Cymru wedi eu cyngori i beidio dod nôl, tan ddiwedd y tymor hwn, yn amodol ar gael cytundeb rhwng Undeb y Myfyrwyr a Gweithrediaeth y Brifysgol ar y dull i alluogi'r ad-daliadau (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).
12. Y dylai'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad gael adroddiad ynghylch y modelu llawn ar oblygiadau'r penderfyniad hwn yn ei gyfarfod nesaf (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).
13. Y dylai copi o'r cyfathrebiadau a anfonir at fyfyrwyr yng ngoleuni'r penderfyniad hwn gael ei rannu ag aelodau'r Cyngor (**GWEITHREDU:** Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus).

## **35. ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2020**

### **NODWYD**

1. Yn y Cyngor ar 26 Tachwedd 2020, dywedwyd wrth yr aelodau bod KPMG, Archwilwyr Allanol y Brifysgol, wedi gofyn am sicrwydd na fyddai'r sefydliad yn torri'r cyfamodau y cytunwyd arnynt gyda'r benthyciwr, Banc NatWest ccc, yn y cyfnod o ddeuddeg mis y byddai KPMG yn asesu 'busnes hyfyw'. Nid oedd y Cyngor felly wedi gallu cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon am 2019-21 wrth aros i'r drefn archwilio allanol ddod i ben.
2. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol ei fod ers hynny wedi bod yn trafod â NatWest. Er bod y Brifysgol yn wreiddiol wedi gofyn am lythyr maddeuant pwrpasol a fyddai'n cwmpasu'r cyfnod deuddeg mis o'r adeg y caiff y Datganiadau Ariannol eu cymeradwyo'n ffurfiol, roedd NatWest nawr yn cynnig cytundeb benthycy diwygiedig. Byddai hyn yn dderbyniol i'r Brifysgol, ac ar hyn o bryd roedd y cytundeb arfaethedig yn cael ei adolygu gan gynghorwyr cyfreithiol y sefydliad.
3. Byddai'n rhaid i'r Cyngor gytuno ar benderfyniad ffurfiol ar y cytundeb benthycy diwygiedig. Disgwylid y byddai modd gwneud hyn trwy ohebiaeth. Wedyn, byddai'r cytundeb terfynol yn cael ei adolygu gan KPMG gyda golwg ar ddod â'r drefn archwilio allanol i ben.

### **PENDERFYNWYD**

4. Bod Cyfarfod Arbennig y Cyngor yn cymeradwyo gohirio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20 tan ddiwedd mis Chwefror 2021, ac erbyn hynny y dylai'r asesiad perthnasol o 'fusnes hyfyw' fod wedi dod i ben (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).